Page

# Proffil staff: Cathryn Evans, Uwch Reolwr Ymgysylltu

Image not found or type unknown

Selfie of a women with long dark hair standing in front of a historic house

Mae Cathryn wedi'i lleoli yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Dechreuodd hi weithio yn y Gronfa Treftadaeth yn 2020, gan ddechrau fel Rheolwr Buddsoddi cyn symud i'w rôl bresennol.

## Beth yw cyfrifoldebau eich rôl?

Rwy'n gweithio gyda phobl sydd eisiau cyflwyno cais am ariannu. Rwy’n eu cynghori ar yr hyn y gallwn ei ariannu a’n hegwyddorion buddsoddi. Weithiau mae’r cyngor hwn yn cael ei roi dros y ffôn neu dros e-bost, ond dw i hefyd yn mynd allan ar draws Cymru, gan gwrdd â phobl mewn ffeiriau a digwyddiadau ariannu a chyfrannu at fforymau. Rwyf hefyd yn cymryd rhan mewn gweminarau ar-lein.

Rwy’n cefnogi’r Pennaeth Ymgysylltu gyda’r Mynegiadau o Ddiddordeb a dderbyniwn, ac yn aml yn helpu fy nghydweithwyr i asesu ceisiadau i weld a ydynt yn addas i symud ymlaen at ein cyfarfodydd penderfynu a monitro cynnydd prosiectau treftadaeth yr ydym eisoes wedi’u hariannu.

## Beth ydych chi'n ei fwynhau am weithio yma?

Rwyf wrth fy modd â’r timau rwy’n gweithio gyda nhw a’r cyfleoedd sydd gennym i gydweithio a chysylltu – yn amgylchedd y swyddfa ac ar ddiwrnodau cwrdd i ffwrdd datblygu ac adeiladu tîm. Ac mae cymaint o angerdd dros dreftadaeth ym mhob cwr o'r sefydliad. Mae pawb yma i wneud pethau da.

## Pa ran o'ch swydd sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i chi?

Ymweld â phobl a dysgu amdanyn nhw a'u treftadaeth. Pan fyddwch chi'n cwrdd â phobl wyneb yn wyneb rydych chi'n deall eu hangerdd dros y prosiect a pham ei fod yn bwysig iddyn nhw. Mae hefyd yn wych gweld prosiectau'n dechrau a sut y maent yn datblygu.

## Beth yw uchafbwynt eich amser yn y Gronfa Treftadaeth?

Yn ystod pandemig y coronafeirws roeddwn yn rhan o'r gwaith o ddarparu ein Cronfa Argyfwng Treftadaeth. Roedd y rhaglen hon yn allweddol, gan na fyddai llawer o sefydliadau, fel amgueddfeydd, yn dal i fod ar agor oni bai am ein grantiau yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd yn teimlo bod llawer o ymddiriedaeth wedi’i rhoi ynof i fod yn rhan o’r prosiect hwn a dysgais lawer ar hyd y ffordd.

## Beth sy'n eich cymell chi yn y gwaith?

Gwaith ieuenctid a threftadaeth yw fy nghefndir. Cyn i mi ddechrau yma, roeddwn wedi llunio ceisiadau am arian treftadaeth, felly rwy'n deall sut mae pobl yn teimlo wrth chwilio am grant. Fel Uwch Reolwr Ymgysylltu, rwy'n cael sgyrsiau gyda llawer o sefydliadau sy'n angerddol dros eu treftadaeth ac sydd angen cefnogaeth i drosi'r angerdd hwnnw'n gais llwyddiannus. Yn benodol, rwy'n mwynhau cefnogi grwpiau treftadaeth llai. Po fwyaf o gefnogaeth y gallwn ei rhoi iddynt, y gorau yw'r cyfle y caiff eu storïau eu

hadrodd a bod eu treftadaeth yn cael ei gwarchod.